

Cronfa Ieuenctid y DU - Cost Byw



Cwestiynau a ofynnir yn aml

Pwy yw Ieuenctid y DU?

Mae Ieuenctid y DU yn elusen flaenllaw sy'n bodoli i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn arfog i ffynnu ac wedi'u grymuso i gyfrannu ar bob cam o'u bywydau. Rydym yn gweithio gydag eraill i sicrhau bod y sector ieuenctid wedi'i gryfhau, ei gynorthwyo, a bod y ddarpariaeth wedi'i harwain gan ieuenctid, wedi'i ffurfio gan dystiolaeth ac yn darparu canlyniadau o ansawdd uchel.

Mae Ieuenctid y DU yn chwarae rôl unigryw wrth fynd i'r afael â'r; diffyg buddsoddiad yn y sector ieuenctid, y prinder o ddealltwriaeth traws sector mewn sut mae gwaith ieuenctid yn gwneud gwahaniaeth a'r cyfleoedd cyfyngedig i sefydlu datrysiadau effeithiol. Mae'r ffactorau hyn yn arwain at anghyfraddoldeb mynediad torfol at wasanaethau ieuenctid i bobl ifanc.

Gan weithio trwy rwydweithiau o sefydliadau a chefnogwyr ieuenctid, rydym yn ysgogi symudiad o bobl i gefnogi'n gweledigaeth ar y cyd. Mae Mudiad Ieuenctid y DU yn agored i bawb ac ar hyn o bryd mae'n sefyll ar dros 7,000 o sefydliadau ieuenctid a phartneriaid cenedl, gyda'i gilydd yn cyrraedd 4.1 miliwn o bobl ifanc.

Pam mae'n rhaid i mi gofrestru cyn gwneud cais?

Mae'n rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru ar ein gwefan i gyrchu'r ffurflen gais. Mae hyn yn sicrhau bod gennym gofnod o bob sefydliad sy'n ymgeisio am ein cyllid. Mae'n caniatáu i ni hefyd gadw'n ceisiadau grant mor syml â phosibl, gan y byddwch wedi darparu gwybodaeth allweddol i ni eisoes am eich sefydliad yn ystod y broses gofrestru.

Rwy'n cael trafferth i gwblhau'r ffurflen – allaf i roi galwad i leuenctid y DU am gymorth?

Yn anffodus, nid oes gennym yr adnoddau i ymateb i alwadau sy'n dod i mewn. Y ffordd gyflymaf o gael y cymorth sydd ei angen arnoch yw e-bostio funding@ukyouth.org â'ch ymholiad. Mae'r mewnlwch hwn yn cael ei fonitro 9am - 5pm pob diwrnod o'r wythnos a byddwn yn eich ateb o fewn 24 awr. Gallwch hefyd ddod i un o'n gweminarau a sesiynau Cwestiynau ac Atebion wythnosol gyda thîm y grantiau. Bydd y sesiynau hyn yn rhedeg ar y dyddiadau canlynol:

Dyddiadau Dydd Mawrth – 1-2:30pm	Dyddiadau Dydd Iau – 10:30-12pm
	2 Chwef
7 Chwef	16 Chwef
21 Chwef	2 Mawrth (2 – 3:30pm)
7 Mawrth	16 Mawrth
21 Mawrth	30 Mawrth
4 Ebrill	
18 Ebrill	27 Ebrill
2 Mai	11 Mai
16 Mai	25 Mai
30 Mai	

Ewch i'r ddolen Eventbrite i gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn:

[UK Youth fund in partnership with Pears Foundation Tickets, Thu 2 Feb 2023 at 10:30 | Eventbrite](#)

Mae gennyf ofyniad hygyrchedd ac mae angen fformat gwahanol neu gymorth ychwanegol?

E-bostiwch funding@ukyouth.org â 'Hygyrchedd' yn llinell y pwnc a byddwn yn blaenoriaethu ymateb i'ch cais. Ein bwriad yw dileu pob rhwystr sy'n gallu atal sefydliad rhag cwblhau'r holiadur felly peidiwch ag oedi i gysylltu os oes angen cymorth ychwanegol arnoch.

Oes rhaid i mi gwblhau'r ffurflen mewn un cynnig?

Na, mae gan y ffurflen nodwedd 'Arbed ar gyfer yn ddiweddarach' y gallwch ei defnyddio i arbed eich gwaith a dychwelyd at eich cais yn ddiweddarach. Mae'n rhaid i chi glicio 'Arbed ar gyfer yn ddiweddarach' i arbed eich cynnydd. Bydd angen i chi ateb pob cwestiwn er mwyn llywio trwy'r ffurflen gais. Fodd bynnag, gallwch fynd yn ôl a golygu eich ymatebionb cyn i chi gyflwyno.

I ailgychwyn cais rydych wedi'i ddechrau eisoes, ewch i 'Grantiau a rhaglenni' a dewiswch 'Parhau â'r cais'. Gallwch gael eich cyfeirio at ddechrau'r ffurflen gais, ond bydd gwybodaeth rydych wedi'i chofnodi eisoes yn ymddangos wrth i chi glicio trwy'r ffurflen.

Pryd mae'r dyddiad cau ar gyfer y cais?

Nid oes dyddiad cau gosodedig ar hyn o bryd ar gyfer y cais gan ein bod yn parhau i godi arian a byddwn yn cadw ffenestr y cais yn agored tra bod cyllid yn dal ar ôl i'w ddosbarthu. Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu wrth iddynt ddod i mewn, felly dylech chi ymgeisio pan fyddwch yn barod. Yn seiliedig ar y pot cyllido presennol o dros £4,500,000 rydym yn disgwyl i'r gronfa fod yn agored am o leiaf 3 mis. Byddwn yn rhoi hysbysiad ar wefan leuenctid y DU 2 wythnos cyn cau'r ffurflen gais.

Pwy sy'n gymwys igael eu hystyried am gyllid?

I fod yn gymwys i ymgeisio mae'n rhaid i chi gadarnhau:

Bod gennych awdurdod i wneud y cais hwn am gyllid ar ran eich sefydliad.

Mae sefydliad yr ymgeisydd wedi'i leoli ac yn darparu yn y DU

Mae gan sefydliad yr ymgeisydd drosiant o lai na £500,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf

Mae sefydliad yr ymgeisydd yn sefydliad elusennol neu nid-er-elw ac mae'n gallu darparu dogfen lywodraethu yn datgan hyn.

Mae gan sefydliad yr ymgeisydd fel ei brif bwrpas darparu gwasanaethau sydd o fudd i bobl ifanc. Mae'n rhiad i o leiaf 70% o fuddiolwyr sefydliad yr ymgeisydd fod yn 8 – 25 oed.

Mae sefydliad yr ymgeisydd wedi bod yn gweithredu am o leiaf 2fl ynedd.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno â'u cais gyfrifon un flwyddyn lawn o leiaf.

Mae gan sefydliad yr ymgeisydd y prosesau a'r polisiâu priodol mewn grym i gadw pobl ifanc yn ddiogel. Mae'n rhaid i hyn gynnwys Polisi Diogelu ac iechyd a Diogelwch. Gallwn ofyn i weld hwn os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i chi.

Mae gan y sefydliad sy'n ymgeisio yr yswiriannau, cymwysterau neu aelodaethau priodol i gorff llywodraethu. Gan ddibynnu ar yr hyn rydych am ei wneud gallai hyn gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, arweinyddion neu hyfforddwyr a chymwysterau arbennig neu aelodaeth i gorff llywodraethu. Gallwn ofyn i weld y rhain os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i chi.

Mae sefydliad sy'n ymgeisio yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 a phob gofyniad statudol neu reolaethol perthnasol arall.

Faint o gyllid fyddwch chi'n ei ddyfarnu yn gyfan gwbl?

Mae gennym bot cyllido o dros £4,500,000 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn parhau i godi arian ac yn disgwyl i'r ffigur hwn gynyddu.

Faint o gyllid ydw i'n gallu ymgeisio amdano?

Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ofyn am gyllid hyd at y gwerth o 10% o drosiant blynyddol eich sefydliad. Mewn amgylchiadau eithriadol gallwn ddosbarthu grantiau ar lefel ychydig yn uwch, ond mae hyn yn annhebygol. Mae hon yn grant 3 blynedd anghyfyngedig â swm y grant yr un peth am bob un o'r tair blynedd. Felly, os oedd trosiant eich sefydliad yn £100,000 llynedd byddem yn disgwyl i chi ofyn am hyd at £10,000 y flwyddyn, gan arwain at gyfanswm grant o £30,000 dros 3 blynedd.

Pam ydw i'n cael ymgeisio am 10% on trosiant yn unig?

Mae'r cyllid hwn wedi cael ei dargedu i helpu dod â sefydlogrwydd i sefydliadau ieuenctid dros dair blynedd ac i liniaru rhywfaint o effaith yr argyfwng costau byw. Nid yw wedi'i fwriadu fel cronfa argyfwng, felly os oes angen symiau llawer yn uwch arnoch yn y tymor byr yna efallai nad hon yw'r gronfa gywir i chi wneud cais iddi.

Oes isafswm cais cyllido?

Na, nid oes isafswm cais cyllido.

Oes rhaid imi fod yn rhan o Fudiad Ieuenctid y DU i ymgeisio?

Na, ond rydym yn annog pob ymgeisydd i gofrestru i lythyr newyddion Mudiad Ieuenctid y DU i ddod yn rhan o rwydwaith sy'n rhannu cyfleoedd i bobl ifanc a'r sector ieuenctid, gan ennill mynediad i ddigwyddiadau, ymgyrchoedd, hyfforddiant, cymorth cymheiriaid, rhwydweithiau a rhaglenni ar thema. Byddwn yn eich cadw'n wybodus ar bob un o'r cyfleoedd trwy ein llythyr newyddion dewisol pob pythefnos.

Oes rhaid i mi fod yn glwb ieuenctid neu elusen ieuenctid?

Mae'n rhaid fod gan sefydliadau sy'n ymgeisio fel eu prif pwrpas ddarpariaeth gwasanaethau sydd o fudd i bobl ifanc. Mae'n rhaid i o leiaf 70% o fuddiolwyr sefydliadau sy'n ymgeisio fod yn 8 – 25 oed. Mae'n rhaid fod agwedd ddatblygiadol gref o'ch gwaith gyda phobl ifanc.

Pryd fyddaf i'n derbyn hysbysiad ar ganlyniad fy nghais a phryd allwn i dderbyn y cyllid?

Bydd dwy ffrwd asesu yn dibynnu ar y swm rydych yn gofyn amdani. Byddwn yn asesu ceisiadau ar sail dreiglol wrth iddynt gael eu cyflwyno. Dylai ceisiadau sy'n gofyn am hyd at £10,000 y flwyddyn dderbyn hysbysiad ar ganlyniad eu cais o fewn 3 – 4 wythnos o gyflwyno. Dylai ceisiadau sy'n gofyn am dros £10,000 y flwyddyn dderbyn hysbysiad ar ganlyniad eu cais o fewn 7 wythnos o ymgeisio.

Cyn gynted â'ch bod wedi cael eich hysbysu am gais grant llwyddiannus, byddwn yn anfon cytundeb grant atoch i chi ei lofnodi a'i ddychwelyd er mwyn i'ch taliad cyntaf gael ei wneud. Fel arfer, byddwn yn gwneud taliad o fewn dwy wythnos o dderbyn eich cytundeb grant a lofnodir.

Erbyn pryd y mae'n rhaid i'r grant gael ei thalu?

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn 3 thalid grant, pob un â blwyddyn rhyngddynt. Byddwn yn disgwyl i chi fod wedi defnyddio grant flynyddol o fewn y flwyddyn ers iddi gael ei derbyn.

Pa ofynion adrodd fydd?

Rydym am i'r gofynion adrodd fod yn gymesur â maint y grant. Felly, byddwn yn gofyn i chi gwblhau ffurflen adrodd fer ar-lein fydd yn cael ei darparu i bob ymgeisydd llwyddiannus ac mae'n rhaid ei chwblhau cyn i'ch taliad grant nesaf gael ei wneud. Bydd eisiau gwybod arnom sut rydych wedi defnyddio'r grant, yr effaith mae'r grant wedi'i chael ar eich sefydliad a phobl ifanc, a'ch cynlluniau ar gyfer grant y flwyddyn ganlynol. Efallai yr hoffech gasglu data ar y niferoedd o bobl ifanc rydych yn eu cynorthwyo neu'r effaith rydych yn ei chael i'ch helpu â hyn.

Rydym hefyd am wneud yn fawr o'r cyfle i daflu goleuni ac arddangos gwaith sefydliadau ieuencid a byddwn yn chwilio am astudiaethau achos a sefydliadau sy'n fodlon creu cynnwys digidol y gallwn ei ddefnyddio i ddangos effaith gwaith ieuencid. Gofynnir i chi ar y cam cytundeb grant a oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn.

O ble mae'r arian wedi dod?

Mae Ieuencid y DU wedi sefydlu Cronfa Ieuencid y DU mewn partneriaeth â Pears Foundation i greu, ehangu a gwella cyfleusterau ieuencid lleol a'u gwasanaethau, er mwyn gyrru canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc, gan gynnwys iechyd a lles gwell a sgiliau ar gyfer gwaith/cyflogadwyedd a bywyd. Mae hyn yn rhan o ymgyrch ieuencid y DU i godi ymwybyddiaeth o'r effaith ddinistriol mae'r argyfwng costau byw yn ei chael ar sefydliadau

ieuenctid a phobl ifanc. A dros £4,500,000 wedi'i godi hyd yn hyn, bydd ieuenctid y yn parhau i weithio i ddod â chyllidwyr ychwanegol i ymuno i gynyddu'r pot cyllido a chynorthwyo cymaint o sefydliadau ieuenctid â phosibl.

Ydw i'n gallu gwneud mwy nac un cais?

Dim ond un cais fesul sefydliad y gellir ei wneud.

Ydw i'n gallu ymgeisio ar ran sefydliad?

Mae'n rhaid i chi gadarnhau bod gennych awdurdod i ymgeisio am y cyllid hwn.

Wnewch chi ein helpu i ysgrifennu cynnig i ymgeisio am gyllid?

Byddwn yn cynnal gweminarau Cwestiynau ac Atebion cyllidwr. Bydd y rhain yn agored i unrhyw sefydliad sy'n ystyried gwneud cais, byddwn yn siarad trwy'r ffurflen gais a chymryd cwestiynau ar sut i wneud cais gwych. I archebu'ch lle ar y weminar cofrestrwch yma: [UK Youth fund in partnership with Pears Foundation Tickets, Thu 2 Feb 2023 at 10:30 | Eventbrite](#) Gweler uchod am wybodaeth ar ddyddiadau ac amseroedd ar gyfer y gweminarau hyn. Os ydych wedi'ch lleoli yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, gallwch hefyd estyn allan at ein Partneriaid Cenedl am gymorth.

Mae Ieuenctid y DU wedi ymrwymo i wneud ein cyllid grant yn hygyrch i bob ymgeisydd. Cysylltwch â ni os oes angen cymorth ychwanegol arnoch. Os nad yw'r iaith Saesneg yn iaith gyntaf i chi ac yr hoffech gymorth ag unrhyw agwedd o'r broses ymgeisio, cysylltwch â ni a byddwn yn hapus i'ch helpu i ymgeisio.

I gysylltu â'r tîm grantiau yn uniongyrchol e-bostiwch funding@ukyouth.org.

Pa amrediad oedran mae'n rhaid i ni gynorthwyo i fod yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn?

Mae Ieuenctid y DU yn dilyn yr ymagwedd bod gwaith ieuenctid yn cyfeirio at yr oedranau 8-25. Fodd bynnag, rydym yn cymryd pob cais mewn senario fesul achos, ac os ydych chi ychydig y tu allan i'r amrediad oedran hwn, byddwn yn adolygu'ch cais yn seiliedig ar yr hyn rydych wedi ei ddweud wrthym am eich sefydliad a'l effaith ar fywydau pobl ifanc.

Rwyf wedi gwneud camgymeriaf ar y ffurflen. Ga i ei newid?

Gwiriwch eich cais yn drwyadl cyn cyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn deall bod y pethau hyn yn digwydd. E-bostiwch funding@ukyouth.org wâ'r wybodaeth gywir cyn gynted â phosibl. Byddwn yn gwneud ein gorau i gydweddu hyn â'ch cyflwyniad gan sicrhau bod gennym yr wybodaeth gywir i'w hadolygu, fodd bynnag bydd ceisiadau yn cael eu hasesu wrth iddynt ddod i mewn ac os oedd gwybodaeth yn anghywir pan gafodd ei hasesu ni fyddwn yn gallu ailasesu eich cais.

Oes terfyn i arian yn y cyfrif banc neu'r arian wrth gefn?

Nid ydym wedi mynnu cael terfyn i gyllid sydd ar gael mewn cyfrifon banc neu arian wrth gefn, fodd bynnag, rydym yn gofyn am fanylion eich arian wrth gefn. Os oes gennych arian mawr wrth gefn, bydd angen i chi esbonio pam nad ydych yn gallu defnyddio'r adnoddau hynny i'ch cynorthwyo.

A yw'r grant yn berthnasol i sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn unig, neu a yw sefydliadau sy'n gweithio gyda chynulleidfa ehanagach, sydd hefyd yn cynnwys pobl ifanc, yn gallu ymgeisio hefyd?

Byddai sefydliadau sy'n gweithio gyda chynulleidfa ehangach, gan gynnwys pobl ifanc, yn gymwys ar gyfer y gronfa. Mae'n rhaid i brif bwrpas sefydliadau sy'n ymgeisio fod yn ddarparu gwasanaethau sydd o fudd i bobl ifanc. Mae'n rhaid i o leiaf 70% o fuddiolwyr sefydliadau sy'n ymgeisio fod yn 8 – 25 oed. Mae'n rhaid i ni fod yn fodlon fod unrhyw gyllid a ddosberthir yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo pobl ifanc.

Mae'r sefydliad yn ei gyfanrwydd yn mynd dros y lefel incwm o £500,000, ond mae gan y prosiect sy'n canolbwyntio ar waith ieuenctid incwm o fewn y lefel honno. A ydym yn gymwys?

Yn anffodus, na. Ar gyfer cymhwyster rydym yn edrych ar incwm y sefydliad yn ei gyfanrwydd.

Fyddwch chi'n cyllido sefydliadau sydd wedi dechrau gweithredu o'r flwyddyn hon?

Na. Mae'n rhaid i'ch sefydliad fod wedi bod yn weithredol am o leiaf dwy flynedd.

A allem ymgeisio am gyllid anghyfngedig?

Gallech, mae'r cyllid sy'n cael ei gynnig yn anghyfngedig.

A ydym yn gallu ymgeisio os nad oes gan ein sefydliad wefan?

Ydych, rydych yn gallu ymgeisio i'r gronfa os nad oes gennych wefan.

Fyddaf i'n cael adborth os wyf yn aflwyddiannus?

Na. Yn anffodus, nid oes gennym yr adnoddau i ddarparu adborth unigol. Ond byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd ar ganlyniad eich cais.

Pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau cyllido?

Bydd pob cyflwyniad cymwys yn cael eu hasesu gan aseswyr gan ddilyn fframwaith sgorio clir. Bydd y cyflwyniadau sy'n cyrraedd y rhestr fer wedyn yn mynd at banel am benderfyniad terfynol. Bydd y paneli ar gyfer grantiau o dros £10,000 y flwyddyn yn cynnwys 50% o bobl ifanc a 50% o arbenigwyr sector allanol o bob rhan o'r DU.

Sut fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau cyllido?

Mae ceisiadau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster ac sydd wedi cyflwyno'r holl wybodaeth ofynnol, yn cael eu hasesu yn erbyn y canlynol:

Angen ariannol:

Profi colled incwm neu ddiffygion; arian isel wrth gefn; risg o leihau gwasanaethau am resymnau ariannol. Diffyg cyllid ar gael i ateb galw cynyddol neu newidiol.

Effaith:

Sut rydych yn helpu pobl ifanc, a pha wahaniaeth mae hyn yn ei wneud (hynny yw, sut mae'n gwella eu llesiant, yn cynyddu eu cyfleoedd mewn bywyd). Sut mae'ch gwaith yn aros yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion pobl ifanc. Bydd sylw neilltuol yn cael ei gymryd o ble mae'r bobl ifanc a gynorthwyr o grwpiau dan anfantais.

Galw:

Y nifer o bobl ifanc rydych yn eu cynorthwyo neu y mae angen eich cymorth arnynt. Byddwn hefyd yn ystyried y ddarpariaeth leol debyg sydd ar gael.

Darparu gwaith ieuenctid o Ansawdd Uchel gan gynnwys Dysgu yn yr Awyr Agored:

Sut mae pobl ifanc yn cael eu galluogi a'u hannog i dyfu a datblygu mewn man diogel gydag oedolion dibynadwy. Mae gan bobl ifanc lais a rhan weithredol yn y gwaith sy'n cael ei gynllunio a'i ddarparu. Mae sefydliadau ieuenctid yn cyfarfod ac yn ymgysylltu â phobl ifanc ble maen nhw ac ar eu telerau..

Cynaliadwyedd:

Sut mae'ch sefydliad yn cael ei reoli (polisiâu priodol);cynaliadwyedd i'r dyfodol; a sut rydych wedi gweithredu eisoes i leihau effaith anawsterau ariannol.

Ydw i'n gallu apelio yn erbyn y penderfyniad?

Na, nid oes modd apelio yn erbyn penderfyniadau.